



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg

Mwy na geiriau

Adroddiad Blynyddol 2023/24

llyw.cymru



Mwy na geiriau

Adroddiad Blynyddol 2023-24

Mae'r adroddiad yma wedi ei baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Ymchwil OB3.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Polisi'r Gymraeg

Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

HSS.TimPolisiYGymraeg@llyw.cymru

hss.welshlanguagepolicyteam@gov.wales

Tabl cynnwys

Rhestr o ffigurau	3
Rhestr o dermau	4
1. Cyflwyniad	6
2. Strwythur yr adroddiad	7
3. Thema gyffredinol: diwylliant ac arweinyddiaeth	9
3.1. Prosesau rheoli perfformiad	9
3.2. Dulliau cyfathrebu	10
3.3. Arwain mewn gwlad ddwyieithog	12
4. Thema 1: Polisïau a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys data	14
4.1. Datblygu'r dystiolaeth	14
4.2. Datblygu canllawiau ac offer cynllunio	15
4.3. Casglu data ar sgiliau Cymraeg y gweithlu ac adrodd arnynt	17
5. Thema 2: Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol	20
5.1. Y gweithlu presennol	20
5.1.1. Cynllunio strategol	20
5.1.2. Diffinio'r gofynion o ran sgiliau Cymraeg	23
5.1.3. Ymwybyddiaeth iaith a lefel cwrteisi o sgiliau Cymraeg	23
5.1.4. Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo yn genedlaethol	25
5.2. Gweithlu'r dyfodol	25
5.2.1. Data	25
5.2.2. Datblygu'r ddarpariaeth	26
5.2.3. Ymgysylltu â gweithlu'r dyfodol	26
6. Thema 3: Rhannu arferion gorau a dull galluogi	29
6.1. Rhannu arferion gorau	29
6.2. Datblygu cynnwys digidol dwyieithog	31
6.3. Fforymau rhanbarthol	32
6.4. Dathlu llwyddiant	32
6.5. Arolwg o ddarparwyr gofal sylfaenol	33
6.6. Y defnydd o iaith Gwaith	33
6.7. Safoni terminoleg	34

7.	Thema 4: Monitro Mwy na geiriau yn barhaus	36
----	--	----

Rhestr o ffigurau

Ffigur 4.1: Canran y staff sydd wedi cofnodi eu sgiliau iaith ar y Cofnod Staff Electronig (ESR), fel ym mis Mawrth 2024..... 18

Ffigur 5.1: Canran y staff ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd a gwblhaodd y cwrs ymwybyddiaeth iaith ym mis Mawrth 202424

Rhestr o dermau

AaGIC – Addysg a Gwella Iechyd Uwch Cymru

AD – Adnoddau Dynol

AEI – Asesiad Effaith Integredig

ALTE – Cymdeithas Profwyr Ieithoedd Ewrop

BIP – Bwrdd Iechyd Prifysgol

CAMHS – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

CEFR – Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd

CTCI – Cynllun Tymor Canolig Integredig

ESR – Cofnod Staff Electronig

GCC – Gofal Cymdeithasol Cymru

GIG – Gwasanaeth Iechyd Gwladol

HPMA – Cymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd

ICC – Iechyd Cyhoeddus Cymru

IGDC – Iechyd a Gofal Digidol Cymru

IHC – Cymuned Iechyd Integredig

IQPD – Ansawdd, Cynllunio a Chyflenwi Integredig

KAS – Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

LHDTc+ – Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol a Cwiar +

Llais – Corff Llais y Dinasyddion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

PADR – Adolygiad Arfarnu a Datblygu Personol

PCGC – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

PREMs – Mesur Profiadau a Adroddir gan Gleifion

SAU – Sefydliad Addysg Uwch

THB – Bwrdd Iechyd Addysgu

WAST – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

WIDI – Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru

1. Cyflwyniad

Lansiwyd cynllun Mwy na geiriau 2022-27 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ym mis Awst 2022. Roedd yn amlinellu cynllun pum mlynedd uchelgeisiol, a ddatblygwyd gan grŵp o arbenigwyr yn seiliedig ar werthusiad annibynnol o gynllun pum mlynedd cyntaf Mwy na geiriau.

Mae'r cynllun yn cynnwys sawl cam gweithredu o dan bum thema:

- diwylliant ac arweinyddiaeth
- polisïau a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg
- cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu
- rhannu arferion gorau
- monitro cynnydd.

Wrth wraidd y cynllun Mwy na geiriau mae cydnabyddiaeth y dylai derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg, yn enwedig pan fydd pobl fwyaf agored i niwed, fod yn rhan annatod o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae safonau proffesiynol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn pwysleisio bod cyfathrebu effeithiol yn ofniad allweddol ac yn hanfodol i gynnal urddas a pharch a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Felly, dylai mabwysiadu a chyflawni Mwy na geiriau helpu i wella ansawdd gofal i unigolion sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog, yn unol â Cymru Iachach – cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Amlinellodd adroddiad blynyddol cyntaf Mwy na geiriau y cynnydd a wnaed o ran gwella gwasanaethau Cymraeg ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd rhai o'r cyflawniadau allweddol a adroddwyd yn cynnwys sefydlu'r Bwrdd Cynghori Mwy na geiriau i fonitro gweithrediad y cynllun, darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gorfodol i staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a datblygu rhaglen i gefnogi staff i ddiweddarau eu sgiliau iaith. Cyfeiriodd yr adroddiad blynyddol cyntaf hefyd at yr ymdrechion a wnaed i ymgorffori'r Gymraeg mewn datblygiadau technolegol, fel ap y GIG, a'r camau a gymerwyd i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf sy'n diwallu anghenion ieithyddol unigolion, drwy'r Cynnig Rhagweithiol, heb iddynt orfod gofyn amdano.

Nod yr adroddiad blynyddol hwn yw adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer 2023-24, gan ganolbwyntio'n benodol ar themâu craidd Mwy na geiriau, y camau gweithredu a gymerwyd hyd yma, effeithiau allweddol, unrhyw fylchau yn y dystiolaeth, a meysydd lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd (a chynnydd cyflymach).

2. Strwythur yr adroddiad

Yr adroddiad hwn yw ail adroddiad blynyddol cynllun Mwy na geiriau 2022-27 – cynllun iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yr [adroddiad blynyddol cyntaf](#) yn cwmpasu blwyddyn gyntaf gweithredu Mwy na geiriau (Awst 2022 – Awst 2023). Mae'r ail adroddiad blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod gweithredu rhwng mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024.

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn.

- Mae Pennod 3 yn amlinellu'r cyflawniadau yn erbyn y thema gyffredinol, sef diwylliant ac arweinyddiaeth.
- Ym Mhennod 4, ystyrir y cyflawniadau a'r heriau'n ymwneud â Thema 1, polisïau a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg gan gynnwys data.
- Ym Mhennod 5 trafodir y cynnydd a'r heriau yn erbyn Thema 2, sef cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol.
- Mae Pennod 6 yn amlinellu'r cyflawniadau a'r heriau'n ymwneud â gwireddu Thema 3, rhannu arferion gorau a dull galluogol.
- Ym Mhennod 7, ystyrir Thema 4, sef monitro Mwy na geiriau yn barhaus.

Mae astudiaethau achos o arferion da hefyd wedi'u cynnwys yn ôl yr angen ym Mhenodau 3 i 6.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar:

- adolygiad o adroddiadau a baratowyd gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Adolygwyd cyfanswm o 29 o adroddiadau, a baratowyd gan:
 - Lywodraeth Cymru
 - 7 bwrdd iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol [BIP] Betsi Cadwaladr; BIP Aneurin Bevan; Bwrdd Iechyd Addysgu [BIA] Powys; BIP Caerdydd a'r Fro; BIP Bae Abertawe; BIP Hywel Dda; a BIP Cwm Taf Morgannwg)
 - 13 awdurdod lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Abertawe)
 - 6 sefydliad iechyd cenedlaethol (Iechyd a Gofal Digidol Cymru [IGDC], Addysg a Gwella Iechyd Cymru [AaGIC], Iechyd Cyhoeddus Cymru [ICC], Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru [PCGC], Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru [WAST] ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre)

- 2 sefydliad arall (Gofal Cymdeithasol Cymru [GCC] a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol)
- cyfweiliadau â chynrychiolwyr o nifer bach o'r sefydliadau hyn i gasglu gwybodaeth fel sail i astudiaethau achos o arferion da.

Er bod y rhan fwyaf o'r adroddiadau a baratowyd gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2023-24, roedd rhai cyflawniadau'n ymwneud â 2024-25 ac nid ydynt wedi'u hystyried yn yr adroddiad blynyddol hwn.

Ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf (ar gyfer 2024-25), bydd yn bwysig gwella'r broses o gasglu data a gwybodaeth a mynd i'r afael â'r bylchau mewn cyfraniadau – yn enwedig gan awdurdodau lleol.

3. Thema gyffredinol: diwylliant ac arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth yn sbardun allweddol ar gyfer gweithredu Mwy na geiriau yn llwyddiannus. Nod y thema gyffredinol hon yw ymwreiddio diwylliant o berthyn mewn perthynas â'r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol a dangos arweinyddiaeth ar bob lefel ar gyfer defnyddio'r Gymraeg i ddarparu gwasanaethau o safon a chanlyniadau gwell i unigolion.

3.1. Prosesau rheoli perfformiad

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cafodd Mwy na geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol eu hymwreiddio ym mhrosesau rheoli perfformiad byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, ac awdurdodau lleol. Cyflawnwyd hyn mewn pedair prif ffordd.

Yn gyntaf, sicrhodd sefydliadau fod y Gymraeg wedi'i hymwreiddio yn Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol (PADR) blynyddol ar draws y sefydliadau. Cafodd staff eu hannog i ddatblygu eu sgiliau a'u hymwybyddiaeth o'r Gymraeg drwy'r broses hon. Er enghraifft, yn BIP Caerdydd a'r Fro roedd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr amcanion perfformiad yn ymwneud yn benodol â nodau a blaenoriaethau Mwy na geiriau.

Yn ail, adroddodd rhai sefydliadau am y mecanweithiau strategol a sefydlwyd ganddynt i oruchwylio Mwy na geiriau. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu byrddau a grwpiau llywio perthnasol, yn ogystal â phenodi hyrwyddwyr y Gymraeg ar lefelau uwch. Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), er enghraifft, roedd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn darparu goruchwyliaeth strategol ar gyfer ymwreiddio'r Gymraeg mewn cynlluniau a gwasanaethau. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, adroddir yn flynyddol ar gynnydd o ran gweithredu Mwy na geiriau i aelodau etholedig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Ofal Cymdeithasol ac Iechyd. Sefydlodd Cyngor Sir Caerfyrddin Fwrdd y Gymraeg ar gyfer gofal cymdeithasol a thai. Yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, mae pwysigrwydd y Cynnig Rhagweithiol wedi cael ei raeadru drwy Grwpiau Is-adrannol y Gymraeg, ac mae hyn wedi cynnwys tynnu sylw at wasanaethau Cymraeg gan ddefnyddio hysbysfyrddau a lluniau o aelodau'r tîm sy'n medru'r Gymraeg a rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gleifion heb iddynt orfod gofyn amdani. Yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru, mae hyfforddiant penodol wedi'i ddarparu ar gyfer y timau casglu gwaed gan eu bod ar y rheng flaen ac yn cyfathrebu â rhoddwyr gwaed yn rheolaidd. Mae'r hyfforddiant hwn wedi arwain at ddadansoddiad SWOT a fydd yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ymhellach ac i amlygu meysydd i'w datblygu ymhellach.

Yn drydydd, fe wnaeth sefydliadau ymwreiddio Mwy na geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol mewn prosesau, strategaethau a chynlluniau adrodd perthnasol. Roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys ymgorffori blaenoriaethau Mwy na geiriau mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (yn AaGIC), Cynllun Gweithredu Blynyddol y Gwasanaeth Cymraeg (yn BIP Betsi Cadwaladr), a Chynllun Busnes Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol (yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy). Darparwyd enghreifftiau hefyd o sut yr adroddwyd ar Mwy na geiriau mewn asesiadau effaith integredig perthnasol ac yn Adroddiadau Blynyddol

Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Darparwyd un enghraifft o'r fath gan Gyngor Abertawe, a eglurodd fod Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys data ac yn crynhoi cynnydd Cyngor Abertawe ar brif ffrydio safonau'r Gymraeg a Mwy na geiriau.

Yn olaf, cafodd hyfforddiant a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth eu hymwreiddio ym mhrosesau sefydlu a datblygu staff. Adroddodd sefydliadau (er enghraifft Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac ICC) sut yr oedd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gorfodol wedi'i ymwreiddio'n briodol a bod ystyried cyfleoedd hyfforddi yn rhan o'r broses PADR. Ym Mhowys, darparodd y cwrs hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr, rhan o Raglen Hyfforddi Rheolwyr orfodol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) a gyflawnir gan bob unigolyn ym Mhowys sydd â phrofiad o fod yn rheolwr llinell, lefel ychwanegol o ddarpariaeth i uwch staff, ar ben yr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gorfodol.

Yn ogystal â hynny, darparwyd enghreifftiau o sut y mae cynnydd wedi'i fesur a'i asesu yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Er enghraifft, eglurodd Cyngor Sir Casnewydd sut yr oedd y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei gyflwyno a'i gofnodi ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol pan gynhelir asesiadau. Yn ystod 2023-24, cofnodwyd y Cynnig Rhagweithiol mewn Gwasanaethau Oedolion mewn 97% o asesiadau ac mewn 93% o asesiadau Gwasanaethau Plant. Cynhaliodd tîm Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Dinbych archwiliad o sut y mae ei wasanaethau'n diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd, ochr yn ochr â gwaith i sicrhau gwelliant a rhannu arferion gorau wrth ddarparu'r 'cynnig rhagweithiol'.

Ni adroddwyd am unrhyw heriau sylweddol mewn perthynas ag ymwreiddio Mwy na geiriau o fewn prosesau rheoli perfformiad.

3.2. Dulliau cyfathrebu

Roedd lluo o enghreifftiau o sut y datblygodd sefydliadau eu strategaethau cyfathrebu mewnol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Cynhaliodd rhai fentrau codi ymwybyddiaeth mewnol yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys ymgyrchoedd cyfathrebu, rhannu astudiaethau achos enghreifftiol, cynnal digwyddiadau ymgysylltu a rhannu adnoddau Cymraeg. Er enghraifft, casglodd BIP Aneurin Bevan dystiolaeth anecdotaidd ar ffurf fideo yn dangos profiad bywyd defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg eu hiaith. Llwyddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gael cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gynnal rhaglen ddiwylliannol a threftadaeth sy'n dathlu diwrnodau arwyddocaol Cymru. Dathlodd IGDC ac eraill fel BIP Hywel Dda ddyddiadau allweddol yn y calendr Cymraeg. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy, roedd gan adran y Gymraeg adran bwrpasol o fewn cylchlythyr i'r staff a gyhoeddwyd bob pythefnos yn darparu awgrymiadau ar sut i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a chyfathrebu ynglŷn â digwyddiadau Cymraeg yn y gymuned.

Yn ogystal â hynny, fe wnaeth sefydliadau hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd ar gael i aelodau o staff. Sicrhawyd bod gwybodaeth am hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant iaith Gymraeg arall ar gael yn gyfleus i aelodau newydd ac aelodau presennol o staff, drwy'r fewnwyd, cylchlythyrau, prosesau sefydlu a rhwydweithiau iaith Gymraeg. Er enghraifft, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, cafodd y Cynnig Rhagweithiol, Mwy na

geiriau a Safonau'r Gymraeg eu cynnwys yn rhaglen sefydlu'r adran gofal cymdeithasol yn ogystal â sesiynau theori a deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod gan bob aelod newydd o staff ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith a diwylliant Cymru. Pwysleisiodd Cyngor Caerdydd hefyd fod staff gofal cymdeithasol yn dilyn Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan fel rhan o'i rhaglen sefydlu yn y gweithle. Mae Mwy na geiriau yn rhan o hynny, ac felly hefyd y gyfres o gymwysterau sy'n dilyn.

Roedd gan BIP Cwm Taf Morgannwg Gynllun Diwylliant a oedd yn arwain llawer o'i waith cyfathrebu strategol yn ymwneud â'r Gymraeg, gan ganolbwyntio ar y cysyniad o 'Hiraeth'. Mabwysiadodd y bwrdd iechyd ddull gwyddor newid ymddygiad ar gyfer ei ddeunyddiau cyfathrebu craidd.

Astudiaeth achos: BIP Cwm Taf Morgannwg

Yn 2023-24, datblygodd BIP Cwm Taf Morgannwg ei ddefnydd o wyddor newid ymddygiad yn ei naratif mewnol ynghylch y Gymraeg.

Datblygwyd cynllun hyrwyddo mewnol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg yn ystod cyfnod adrodd cyntaf Mwy na geiriau, a oedd yn canolbwyntio ar sut y mae'r bwrdd iechyd yn cyfathrebu ynghylch y Gymraeg. Roedd hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, yn nodi camau i hyrwyddo'r Gymraeg drwy lens newid ymddygiad a diwylliant, yn unol â'r Olwyn Newid Ymddygiad a'r model galluogi COM-B. ^[troednodyn 1]

Datblygwyd y fframwaith cyffredinol yn 2023-24 a gellir ei weld ar-lein yma. Mae'r categorïau'n seiliedig ar dair elfen o fethodoleg newid ymddygiad gydnabyddedig, sef COM-B. Mae COM-B yn cwmpasu Gallu (gwybod sut i gyflawni'r ymddygiad), Cyfle (meddu ar y dull neu'r adnoddau i gyflawni'r ymddygiad) a Chymhelliant (yr ewyllys i fod eisiau cyflawni'r ymddygiad). Mae'r fframwaith yn cynnwys enghreifftiau o arfer o dan bob categori.

- Mae'r categori 'Da iawn' yn canolbwyntio ar ddathlu enghreifftiau unigol o arfer da gan staff ar draws y sefydliad wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn galluogi rhannu a mabwysiadu arferion da mewn mannau eraill, ond mae hefyd yn cynnwys 'prawf cymdeithasol' a 'gwybyddiaeth yn seiliedig ar hunaniaeth'. Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod bod y rhain yn gysyniadau pwysig wrth ledaenu newid ymddygiad gan fod staff yn llawer mwy tebygol o fabwysiadu ymddygiadau sy'n gefnogol i'r Gymraeg os ydynt yn gweld eu cydweithwyr yn cyflawni'r ymddygiadau hyn hefyd. Mae'r adran 'Da iawn' yn cyd-fynd ag agwedd 'Cymhelliant' y model COM-B.
- Mae'r ail agwedd, 'Mwy na Geiriau: Profiad y Claf' yn canolbwyntio ar sut y gall defnyddio'r Gymraeg gael effaith gadarnhaol ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau. Mae dangos effaith ymddygiadau yn y byd go iawn ar gleifion yn gymhelliant pwysig i staff y GIG. Mae'r agwedd hon hefyd yn mynd law yn llaw ag agwedd 'Cymhelliant' y model COM-B.
- Yn drydydd, mae'r adran Cof Cymorth yn rhannu negeseuon rheolaidd ynglŷn â sut y gall staff gael mynediad at adnoddau, cyngor neu gymorth i ymgorffori'r Gymraeg yn

¹ Gallu, Cyfle, Cymhelliant ac Ymddygiad

y ffordd y maent yn darparu eu gwasanaethau. Mae'r agwedd hon yn cyd-fynd ag elfennau 'Gallu' a 'Cyfle' y model COM-B.

- Yn olaf, mae'r adran 'Sgiliau, Dysgu a Datblygu' yn rhannu diweddariadau rheolaidd a negeseuon atgoffa am wahanol gyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a chyfleoedd hyfforddi a datblygu eraill sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg. Mae'r agwedd olaf hon yn cyfateb i elfen 'Gallu' y model COM-B.

Dywedodd Abbie Heasley, Swyddog y Gymraeg yn y bwrdd iechyd: 'Mae ein fframwaith cyfathrebu mewnol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg wedi bod yn llwyddiannus oherwydd ei fod yn cyfuno gwyddor newid ymddygiad ag ymrwymiad y bwrdd iechyd i gynhwysiant a bod yn sefydliad dwyieithog. Drwy ddefnyddio gwybodaeth ynghylch sut i ysgogi a chefnogi staff yn effeithiol, rydym wedi creu diwylliant lle mae'r Gymraeg yn cael ei hymwreiddio'n rheolaidd mewn deunyddiau cyfathrebu sy'n cael eu cyhoeddi o leiaf bob pythefnos. Mae'r dull hwn nid yn unig yn meithrin amgylchedd mwy cynhwysol i'n staff ond mae hefyd yn cefnogi'r fframwaith Mwy na geiriau, gan ein helpu i wasanaethu ein cydweithwyr a'n cymunedau Cymraeg yn well.

Yn ogystal â hynny, datblygodd BIP Cwm Taf Morgannwg ei ddulliau monitro a gwerthuso i gasglu tystiolaeth yn ymwneud â phrofiad cleifion ac ymwybyddiaeth staff o'r Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys arolwg staff mewnol, defnyddio data mesurau profiad a adroddir gan y claf (PREMs), data ansoddol gan gleifion ac ymweliadau â safleoedd, yn ogystal ag enghreifftiau ansoddol eraill o newid diwylliannol o fewn y sefydliad.

Roedd ymgyrch 'Defnyddia Dy Gymraeg' Comisiynydd y Gymraeg yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth yn y sector yn ystod y cyfnod adrodd hwn. I ddathlu'r ymgyrch, cydweithiodd ICC â chyrff eraill GIG Cymru i ddarparu cyfres o weithgareddau yn y Gymraeg yn ystod yr ymgyrch pythefnos o hyd. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau ar bynciau fel iaith a chydaddoldeb yng Nghymru a defnyddio Microsoft 365 yn y Gymraeg.

3.3. Arwain mewn gwlad ddwyieithog

Cwblhaodd tair carfan o gynrychiolwyr y Rhaglen Beilot Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog (Academi Cymru) (a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru) yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Cyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaethau oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen amlaf (er enghraifft, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyfarwyddwr Cymunedau). Rhoddwyd rhai enghreifftiau o effaith y rhaglen; er enghraifft, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, fel rhan o'r rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog, cafodd sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg eu teilwra i gynnwys Penaethiaid Gwasanaethau a Rheolwyr Gwasanaethau. Cafodd yr arweinwyr hyn eu hannog i gymryd camau bach i wneud gwahaniaeth, fel agor a chau cyfarfodydd yn ddwyieithog, cynnal sesiynau cymorth ar gyfer y Gymraeg, a darparu cyfleoedd i staff ymarfer eu Gymraeg.

Methodd rhai sefydliadau â chael lle ar y rhaglen yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac nid oeddent yn ymwybodol o gyfleoedd a oedd i ddod. Roeddent yn awyddus i gymryd rhan mewn sesiynau yn y dyfodol.

Tynnodd rhai sefydliadau sylw hefyd at sut yr oedd egwyddorion Mwy na geiriau wedi'u hymwreiddio yn eu rhaglenni hyfforddi mewnol eu hunain i arweinwyr. Er enghraifft, mae'n ofynnol i staff Cyngor Sir Abertawe sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Datblygu Rheolwyr gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi ac asesu Prentis Iaith. Datblygodd BIP Cwm Taf Morgannwg ei raglen arweinyddiaeth ei hun sy'n cynnwys adran benodol ar arweinyddiaeth a'r Gymraeg i uwch arweinwyr. Roedd y rhaglen hefyd yn ysbrydoliaeth i gynnwys Cymraeg Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arweinyddiaeth y bwrdd iechyd. Cwblhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hefyd sesiynau gyda'r Uwch Dîm Arwain (Penaethiaid Gwasanaeth ac uwch) yn seiliedig ar gynnwys y rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog.

Gan fyfyrio ar bwysigrwydd dangos arweinyddiaeth, cyfarfu Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar a Phrif Weithredwr GIG Cymru ddwywaith y flwyddyn â Chomisiynydd y Gymraeg i drafod materion o ddiddordeb strategol cyffredin ac roedd y cynllun Mwy na geiriau yn eitem ar gyfarfodydd Bwrdd Arweinyddiaeth y GIG, a fynychwyd gan brif weithredwyr y GIG ac a gadeiriwyd gan Judith Paget.

4. Thema 1: Polisiâu a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys data

Mae Mwy na geiriau yn cydnabod bod prosesau casglu data cryf a sylfaen dystiolaeth gref yn hanfodol i lywio ac ysgogi penderfyniadau'n ymwneud â pholisi a chynllunio'r gweithlu. Bydd sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gynllunio gwasanaethau effeithiol yn galluogi sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol yn llwyddiannus drwy eu gweithlu.

4.1. Datblygu'r dystiolaeth

Er bod yr adroddiadau yn ystod y cyfnod hwn yn amlinellu datblygiadau diddorol sydd ar y gweill sydd â'r potensial i greu cynllun clir a strwythuredig ar gyfer comisiynu gwaith ymchwil neu ddadansoddi setiau data presennol, ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod 2023-24.

Llywodraeth Cymru yw un o'r prif sefydliadau atebol ar gyfer y cam gweithredu hwn ac amlinellodd gynlluniau i weithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) i nodi cyfleoedd yn y dyfodol. Un maes gwaith a arweiniwyd gan KAS yn ystod 2023-24 oedd y gwaith cynllunio a wnaed ar gyfer ailadrodd yr arolwg cenedlaethol o ddarparwyr gofal sylfaenol (gweler adran 6.5 o'r adroddiad blynyddol hwn) – ac i'r arolwg cenedlaethol hwn gynnwys gwasanaethau optometreg, deintyddol a fferylliaeth hefyd. Mae'r arolwg cenedlaethol hwn (a gynhaliwyd yn ystod cyfnod adrodd 2024/25) yn ailadrodd arolwg 2019 o feddygon teulu a'u defnydd o'r Gymraeg a'u cefnogaeth i flaenoriaethau Mwy na geiriau.

Mae [Llais](#) yn sefydliad cymharol newydd a oedd wrthi'n cael ei sefydlu yn ystod y cyfnod adrodd, felly byddai disgwyl i'w gyfraniad fod yn gymharol gyfyngedig, er i arolwg gael ei ddosbarthu a'i ddadansoddi. Er bod prifysgolion a melinau trafod wedi cael eu henwi fel sefydliadau atebol a bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae, nid yw'n ymddangos bod proses systematig ar waith ar hyn o bryd i gasglu na chomisiynu canfyddiadau ymchwil sy'n ymwneud â Mwy na geiriau yn y sefydliadau hyn. Byddai'n werth sefydlu proses o'r fath yn y dyfodol.

Astudiaeth achos: Llais

Cydweithiodd Llais â thîm Mwy na geiriau i ymchwilio i ba mor dda y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg wrth ryngweithio o ddydd i ddydd. Lansiodd arolwg ar ôl y drafodaeth banel a oedd yn caniatáu i bobl rannu eu barn ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Amlygodd yr ymatebion rôl hanfodol gwasanaethau dwyieithog ar gyfer cyfathrebu ymarferol a llesiant emosiynol. Roedd adborth yn dangos yn gyson bod pobl yn teimlo'n hapusach, yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn fwy, ac yn cael eu parchu pan fyddant yn gallu cyfathrebu yn yr iaith o'u dewis. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn parhau i fod yn anghyson, gan greu bylchau yng ngofal a phrofiadau cleifion. Gan adeiladu ar y wybodaeth

hon, mae Llais yn paratoi [datganiad sefyllfa](#) i dynnu sylw at effaith darpariaeth gyfyngedig yn y Gymraeg ar ofal cleifion.

4.2. Datblygu canllawiau ac offer cynllunio

Mae datblygu canllawiau ac offer cynllunio'r gweithlu i ganiatáu i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol nodi sgiliau presennol eu gweithlu a'r bylchau yn sbardun allweddol yng nghynllun gweithredu Mwy na geiriau. Adroddir ar y rhain o dan sawl cam gweithredu'n ymwneud â Thema 2 yr adroddiad hwn. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae nifer o offer, dulliau, dogfennau cynllunio, canllawiau a datblygiadau wedi cael eu rhannu o fewn y sector i wella prosesau ymhellach. Fodd bynnag, mae cyfle i anelu at well trefniadau rhannu adnoddau a chysondeb er mwyn lleihau dyblygu ymdrech a chwilio am gyfleoedd i rannu datblygiadau yn gynharach, ac mewn ffordd fwy strwythuredig yn y dyfodol. Gallai'r [Hwb Iaith](#), a lansiwyd yn ddiweddar, helpu i gefnogi'r agenda hon, yn y dyfodol (gweler adran 6.1).

Mae rhai o'r prosesau casglu data, offer, canllawiau neu ddatblygiadau mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu a amlygwyd gan sefydliadau iechyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys y canlynol:

- datblygodd BIP Aneurin Bevan offeryn i wneud casglu'r wybodaeth hon yn haws ac mae wedi'i rannu â byrddau iechyd a sefydliadau eraill
- sefydlodd BIP Caerdydd a'r Fro grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu prosesau recriwtio mewn perthynas â'r Gymraeg wrth iddo geisio gwella ei allu i gynllunio ei weithlu'n briodol
- datblygwyd strategaeth ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal Iechyd yn BIA Powys sy'n cynnwys camau newydd i gyflwyno asesiad gorfodol o bob swydd wag mewn perthynas â gallu presennol timau i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu hasesu'n briodol ar gyfer gofynion y Gymraeg a dylai arwain at gynnydd yn nifer y rolau a hysbysebair fel rhai ble mae'r Gymraeg yn hanfodol. Mae ei offeryn asesu swyddi gwag wedi ennyn diddordeb byrddau iechyd eraill hefyd
- derbyniwyd canllawiau cynllunio'r gweithlu yn ystod y cyfnod hwn yn BIP Bae Abertawe a chawsant eu rhannu ar draws mewnwyd y bwrdd iechyd. Bydd y canllawiau'n rhan o adolygiad ehangach o'i Fframwaith Sgiliau Dwyieithog, a byddant yn cael eu hymgorffori mewn strategaethau recriwtio wedi hynny
- datblygodd AaGIC fethodoleg ar gyfer casglu data yn seiliedig ar broses a fabwysiadwyd gan BIP Aneurin Bevan. Fe wnaeth hefyd ddatblygu canllaw 'Sut i' ar gyfer staff a phroses ymyrryd â llaw i gyrraedd staff sy'n cael problemau hygyrchedd
- Datblygodd IGDC ap newydd i asesu sgiliau Cymraeg swyddi cyn y broses graffu a hysbysebu swyddi

- yn 2024, cynhaliodd WAST weithdy ymgysylltu cydweithredol ar y Cynllun Gweithlu Strategol a fu o gymorth i amlinellu a chytuno ar gamau ar gyfer ei weithredu o fewn thema'r Gymraeg yn y cynllun
- cynhaliodd BIP Betsi Cadwaladr ymgyrch ar-lein i hysbysu staff am y gofyniad i gwblhau'r Cofnod Staff Electronig (ESR) a datblygu canllawiau i gynorthwyo staff yn ystod y cyfnod adrodd
- cynhaliodd BIP Caerdydd a'r Fro ymgyrch ar draws y sefydliad i wella'r broses o gasglu data sgiliau Cymraeg. Hefyd, cymerodd gamau i wneud y broses o gofrestru sgiliau Cymraeg yn haws drwy ddefnyddio Microsoft Forms
- yn Ymddiriedolaeth Iechyd GIG Prifysgol Felindre mae data'n ymwneud â sgiliau iaith bellach yn rhan o'r dangosfwrdd data a gofnodir gan feddalwedd WorkForce

Datblygodd sefydliadau gofal cymdeithasol offer a phrosesau hefyd i wella'r broses casglu data mewn perthynas â'u gweithlu yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- diweddarodd Cyngor Sir Caerfyrddin ymarfer a oedd yn asesu sgiliau iaith y staff a'r galw am wasanaethau Cymraeg gan ddinasyddion, a glanhawyd y data i sicrhau cywirdeb. Bydd hyn o gymorth gyda blaengynllunio'r gweithlu
- casglwyd sgiliau iaith yr holl staff yn ganolog gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ystod y cyfnod adrodd hwn, a nodwyd lefelau iaith yr holl staff newydd. Mabwysiadodd y tîm gwasanaethau cymdeithasol ddull mwy trylwyr o ymdrin â sgiliau Cymraeg eu tîm yn unol â Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer leithoedd (CEFR) GCC
- yn ystod 2023-24, hunanasesodd siaradwyr Cymraeg eu sgiliau siarad a gwrando yn y Gymraeg, ac mae hynny wedi galluogi rheolwyr i fod yn ymwybodol o ba aelodau o'u tîm all gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyngor Dinas Casnewydd. Cyflwynodd tîm gofal cymdeithasol Cyngor Sir Fynwy system gofnodi dysgu a datblygu yn 2023 sydd wedi cael ei mabwysiadu ar draws yr awdurdod lleol ehangach ers hynny, ac mae cynlluniau i'w chyflwyno ledled Cymru. Os bydd hyn yn cael ei gyflawni, bydd yn hwyluso'r gallu i adrodd yn genedlaethol ar bob gweithgaredd dysgu a datblygu sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Rhoddodd awdurdodau lleol ddiweddariadau hefyd ar weithgareddau a oedd wedi parhau yn ystod 2023-24. Er enghraifft, yng Nghyngor Sir Ynys Môn mae disgwyliad bod yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn darparu Cynnig Rhagweithiol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Maent yn gwybod pwy yw'r staff Cymraeg eu hiaith ac mae'r aelodau hynny o staff yn cael eu dyrannu i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, caiff dewis iaith y defnyddiwr gwasanaeth ei rannu ag asiantaethau gofal cymdeithasol o'r cychwyn cyntaf, a cheir disgwyliad cytundebol y gellir darparu'r holl wasanaethau yn newis iaith y defnyddiwr. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth Cyngor Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ddiweddarau neu ddiwygio eu prosesau asesu effaith integredig (AEI) i gryfhau'r ystyriaeth o'r Gymraeg ym mhob datblygiad polisi yn y dyfodol.

Astudiaeth achos: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Mae AaGIC wedi datblygu canllawiau i helpu staff i gynllunio ar gyfer sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu. Bydd y [canllawiau](#) yn helpu i sicrhau bod sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol angenrheidiol. Yn bwysicach fyth, bydd hyn yn helpu i gefnogi'r gweithlu i allu ymateb i gleifion yn eu dewis iaith, a fydd yn arwain at ganlyniadau clinigol gwell. Mae'r adnodd yn helpu rheolwyr i gynllunio'r gweithlu ar gyfer y Gymraeg wrth ystyried:

- anghenion eu poblogaeth bresennol
- lefelau cymhwysedd presennol eu gweithlu yn y Gymraeg
- unrhyw fylchau mewn sgiliau Cymraeg.


Mae'r canllawiau'n darparu pecyn cynhwysfawr o adnoddau, gan gynnwys fideo cyflwyniadol, y ddogfen ganllawiau ei hun, enghreifftiau ac arfer da, dolenni i hyfforddiant iaith Gymraeg, dolenni i hyfforddiant cynllunio'r gweithlu a llyfrgell wedi'i churadu ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

Mae'r adnoddau'n cael eu rhoi ar borth 'Y Tŷ Dysgu' ac felly maent ar gael i unrhyw weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol. Y nod yw lledaenu hyn ymhellach fel ei fod yn rhan annatod o unrhyw waith cynllunio'r gweithlu yn y meysydd dan sylw.

4.3. Casglu data ar sgiliau Cymraeg y gweithlu ac adrodd arnynt

Adroddodd byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eu bod wedi gwneud cynnydd da yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gyda chynnydd yng nghyfradd cydymffurfio wrth gofnodi sgiliau Cymraeg staff y GIG, fel y dangosir yn yr enghreifftiau a ddarperir yn Ffigur 4.1. Mae'r data yn Ffigur 4.1 yn tynnu sylw at gynnydd a oedd yn aml ymhell uwchlaw targedau'r sefydliad ar gyfer y flwyddyn. Mae IGDC yn gosod targed o 100% ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac mae ICC hefyd yn anelu at 95%. Mae hyd yn oed y rhai a adroddodd gyfraddau is ar gyfer 2023-24 yn gweithio'n galed i wella eu cydymffurfiaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Er enghraifft, llwyddodd BIP Bae Abertawe i wella ei gyfradd cydymffurfio 20% o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae'n gweithio'n agos gyda PCGC i unioni problemau data ar yr ESR ac anelu at gydymffurfiaeth o 85% erbyn y pwynt adrodd nesaf.

Ffigur 4.1: Canran y staff sydd wedi cofnodi eu sgiliau iaith ar y Cofnod Staff Electronig (ESR), fel ym mis Mawrth 2024



Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hon yn dangos bod canran y staff a gofnododd eu sgiliau iaith yn amrywio o 54% i 98%.

Ffynhonnell: Adroddiadau diweddarau ar gynnydd 2023-24

Mae'r sector gofal cymdeithasol hefyd yn gwneud rhywfaint o gynnydd, gydag 14 o adrannau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol yn darparu diweddariad yn erbyn y cam hwn, gan amlinellu'n gyffredinol y prosesau a'r systemau mewnol sydd ar waith yn eu hawdurdodau lleol priodol i gofnodi sgiliau iaith y gweithlu yn ganolog. Er enghraifft, mae Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd yn rhoi canllawiau i reolwyr ar sut i asesu sgiliau Cymraeg staff, wedi'i chefnogi gan arolwg ledled y Cyngor i nodi'r data sy'n cael eu cadw ar hyn o bryd.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Ynys Môn oedd yr unig awdurdod lleol i ddarparu tystiolaeth feintiol yn erbyn yr amcan hwn gan ei fod eisoes yn casglu data cynhwysfawr ar sgiliau Cymraeg ei staff. Mae 80% o staff Gwasanaethau Oedolion yn gallu siarad Cymraeg ar Lefelau 3-5, tra bod 86% o holl staff y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gallu siarad Cymraeg i Lefelau 3-5 ar Fframwaith Cymdeithas Profwyr leithoedd Ewrop (ALTE).

Roedd 62,000 o weithwyr ar gofrestr gweithlu GCC gan gynnwys staff mewn cartrefi gofal i oedolion yn ystod 2023-24. Mae GCC wedi gwneud newidiadau i'w categorïau cofrestru iaith Gymraeg fel eu bod yn cyd-fynd â setiau data cenedlaethol, gan ganiatáu ar gyfer prosesau casglu data gwell ac adrodd yn fwy manwl gywir yn y dyfodol, ochr yn ochr â'i arolwg blynyddol o'r gweithlu.

Astudiaeth achos: Gofal Cymdeithasol Cymru

Dros y degawd diwethaf, mae GCC wedi datblygu offeryn penodol i asesu a chofnodi sgiliau Cymraeg ei staff. Nod yr offeryn yw galluogi cyflogwyr i gael darlun clir a chywir o alluoedd ieithyddol eu staff, gan ddefnyddio fframwaith sgiliau iaith yn seiliedig ar lefelau Cymdeithas Profwyr Ieithoedd Ewrop (ALTE) (Lefelau 0–5), sy'n cwmpasu'r pedwar maes cyfathrebu: siarad, darllen, ysgrifennu a deall. Mae'r offeryn yn rhan o becyn cynllunio'r gweithlu ehangach, gan helpu sefydliadau i asesu, recriwtio a chynllunio'n strategol yn seiliedig ar anghenion ieithyddol eu gwasanaethau.

Yn ystod 2023-24, cynhaliwyd peilot o fersiwn wedi'i diweddaru o'r offeryn gyda'r nod o'i wneud yn fwy rhyngweithiol a'i gyflwyno ar-lein, gan wella hygyrchedd ac annog mwy o staff i gymryd rhan. Mae'r fersiwn newydd yn cynnwys rhyngwyneb gwell a chanllawiau gweledol sy'n egluro'r lefelau sgiliau, gan ei gwneud yn haws i staff asesu eu galluoedd yn hyderus.

Mewn un enghraifft drawiadol o gartref gofal yn defnyddio'r offeryn wedi'i ddiweddaru yn ystod y cyfnod peilot, canfuwyd bod nifer sylweddol o staff yn gallu siarad Cymraeg ond nad oedd ganddynt yr hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Comisiynwyd cyrsiau 'Codi Hyder' a 'Camau' mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o ganlyniad i hynny. O fewn chwe mis, cofnodwyd cynnydd o 26% yng nghymhwysedd iaith y staff.

Er bod yr offeryn bellach ar gael ar-lein, mae'r cam nesaf yn cynnwys codi ymwybyddiaeth a darparu cymorth ymarferol i gyflogwyr i ddechrau'r broses o asesu sgiliau iaith eu gweithlu. Mae GCC yn bwriadu adeiladu ar y momentwm drwy gydweithio â phartneriaid fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

5. Thema 2: Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol

Mae Thema 2 yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a'r gweithlu'r dyfodol er mwyn cyflawni uchelgeisiau cyffredinol Mwy na geiriau. Mae hyn hefyd yn cael ei gydnabod yn strategaeth y gweithlu lechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd ar y cyd gan AaGIC a GCC sy'n amlinellu nodau uchelgeisiol ar gyfer gweithlu dwyieithog. ^[troednodyn 2]

5.1. Y gweithlu presennol

5.1.1. Cynllunio strategol

Gwnaed cynnydd da yn ystod y cyfnod adrodd hwn i nodi'r bylchau yn sgiliau Cymraeg y gweithlu. Cyflawnwyd hyn drwy wella'r broses o gasglu a chofnodi data ar sgiliau Cymraeg staff presennol, yn ogystal â gwella'r broses o gasglu a chofnodi gofynion iaith swyddi gwag. Er enghraifft, roedd Cyngor Gwynedd yn ei gwneud yn ofynnol i staff gwblhau hunanasesiad iaith ac yn targedu gwasanaethau lle yr oedd bylchau amlwg (megis staff rheng flaen heb fynediad at gyfrifon TG). O ganlyniad, cofnododd Gwynedd sgiliau iaith tua 90% o'r gweithlu gofal cymdeithasol, cynnydd o 30% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mewn achos arall, roedd Grŵp Cynllunio'r Gweithlu ICC yn cyfarfod bob pum wythnos i oruchwylio'r ystyriaethau craidd wrth gynllunio'r gweithlu, gan gynnwys gofynion ieithyddol. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fylchau mewn sgiliau iaith drwy ei Ddadansoddiad o Anghenion Hyfforddi.

O ganlyniad, roedd llawer o sefydliadau'n gallu cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn sgiliau iaith y gweithlu, yn enwedig drwy weithgaredd hyfforddi a recriwtio wedi'u targedu. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac, mewn achosion eraill, cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu hyfforddiant wedi'i dargedu. Mae recriwtio wedi'i dargedu fel arfer yn canolbwyntio ar bennu gofynion iaith a thargedu darpar weithwyr priodol. Er enghraifft, nododd IGDC fylchau mewn sgiliau yn y ddesg wasanaeth a'r tîm cyfathrebu ac, i unioni'r sefyllfa, hysbysebodd swyddi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a defnyddiodd safleoedd recriwtio Cymraeg. Datblygodd PCGC ei hyfforddiant ei hun ar ateb galwadau ffôn. Cynhaliodd Cyngor Caerdydd arolwg blynyddol i gofnodi sgiliau Cymraeg y staff a swyddi ble mae'r Gymraeg yn hanfodol. Defnyddiwyd canlyniadau'r arolwg hwn fel sail i ymyriadau i sicrhau bod gan dimau ddigon o gapasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Gweithiodd tîm Caerdydd Ddwieithog gydag arweinwyr tîm a rheolwyr gweithredol i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd drwy reoli staff, recriwtio a hyfforddi.

Fodd bynnag, roedd y cynnydd o ran datblygu a gweithredu strategaeth hyfforddiant a gweithlu ar gyfer y Gymraeg wedi'i thargedu er mwyn ymateb i fylchau yn gymysg, gyda rhai sefydliadau ymhellach ar y blaen nag eraill. Gwelwyd enghreifftiau amrywiol o sut yr aeth

² Addysg a Gwella Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, 2020. *Cymru Iachach: Ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.*

sefydliadau ati i ddatblygu strategaeth gweithlu a hyfforddiant ar gyfer y Gymraeg. Sefydlodd BIP Betsi Cadwaladr ei Bolisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog, a oedd yn canolbwyntio ar feysydd cyflawni megis: sicrhau bod pob swydd rheng flaen yn cael ei hysbysebu fel swydd ble mae'r Gymraeg yn hanfodol; ceisiadau am absenoldeb ar gyfer hyfforddiant; a chynnwys cyfleoedd hyfforddi mewn amcanion PADR. Datblygodd BIP Caerdydd a'r Fro Gynllun Ymgynghori Clinigol, a oedd yn edrych ar sut y gallai'r sefydliad wella ei allu i gynnal ymgynghoriadau â chleifion a defnyddwyr gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cadarnhaodd eu Cynllun Pobl a Diwylliant hefyd ymrwymiad y sefydliad i hyrwyddo'r Gymraeg. Parhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i fuddsoddi yn y rhaglen ddwyieithog MA mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor a'i chefnogi. Ers 2023, mae wedi cefnogi pump o weithwyr i ymgymryd â'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2024, crëwyd swydd newydd Gweithiwr Cymdeithasol Dan Hyfforddiant ôl-raddedig, gyda'r gofyniad i gwblhau'r MA mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Sicrhodd y buddsoddiad parhaus hwn gyflenwad o weithwyr cymdeithasol Cymraeg eu hiaith.

Nid oedd sefydliadau eraill wedi cwblhau strategaeth hyfforddiant a gweithlu yn benodol ar gyfer y Gymraeg eto. Roedd rhai wedi gwneud cynnydd tuag at gynhyrchu strategaeth ac yn defnyddio data newydd ar sgiliau iaith i wneud hynny. Er enghraifft, roedd BIP Bae Abertawe yng nghamau olaf y gwaith o ddatblygu strategaeth pum mlynedd i gynyddu ei allu i gynnal ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan nodi bylchau mewn sgiliau fel blaenoriaethau. Adroddodd eraill yn bennaf ar gynlluniau a dulliau hyfforddi sydd ar waith, a oedd yn cynrychioli eu hymateb strategol i fylchau a nodwyd mewn sgiliau.

Roedd rhai enghreifftiau o sut yr oedd sefydliadau wedi ymgorffori ystyriaethau sgiliau iaith y gweithlu yn eu prosesau arweinyddiaeth. Yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, roedd Cynghorydd Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn rhan o'r tîm dysgu a datblygu ehangach; roedd yn cynghori ar ddatblygu sgiliau ac yn trefnu ystod eang o gyfleoedd dysgu i staff. Cyflwynodd Cyngor Sir Fynwy bolisi goruchwyllo newydd ar draws y maes gofal cymdeithasol, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd un-i-un rheolaidd a'r angen i gytuno ar weithgaredd dysgu a datblygu, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, datblygodd a chryfhodd llawer o fyrdau ieuchyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol berthnasodd cadarnhaol â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan). Darparwyd llawer o enghreifftiau o gynllunio strategol mewn partneriaeth â'r Ganolfan, er bod y ddarpariaeth ar lawr gwlad yn fwy datblygedig mewn ambell ran o Gymru. Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys sefydlu a pharhau i ddarparu Cymraeg Gwaith. Er enghraifft, adroddodd Cyngor Sir Casnewydd fod Cymraeg Gwaith wedi'i lansio yn ystod 2023-24 a bod cydweithwyr, yn amrywio o ddechreuwr i'r rhai â sgiliau iaith datblygedig iawn, wedi cael eu hannog i gofrestru ar gyrsiau priodol. Mewn ymateb i'r galw gan y sector, parhaodd y Ganolfan hefyd i oruchwyllo darpariaeth cyrsiau Cymraeg prif ffrwd, a ddarperir yn bennaf drwy gydweithio agos rhwng sefydliadau a darparwyr Dysgu Cymraeg. Er enghraifft, eglurodd Cyngor Sir Ynys Môn sut yr oedd yn gweithio'n agos gyda Dysgu Cymraeg y Gogledd Ddwyrain i gynnig dosbarthiadau dan arweiniad tiwtor ar wahanol lefelau. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o wahanol fformatau dysgu, gan gynnwys sesiynau wythnosol, cyrsiau Cymraeg Gwaith a chyrsiau

preswyl. Ers cymryd rhan yng nghynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau wedi treblu ar lefel gorfforaethol. Adroddodd BIP Bae Abertawe ei fod wedi gallu cynnig 150 o gyfleoedd dysgu i staff ar lefel mynediad yn ystod y cyfnod adrodd, a ariannwyd drwy Cymraeg Gwaith.

Datblygiad mwy diweddar oedd sefydlu cyrsiau codi hyder yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Dechreuodd tiwtoriaid Cymraeg gynnal cyrsiau codi hyder mewn ambell sefydliad ac roedd cynlluniau i'w darparu mewn sefydliadau eraill hefyd. Nid oedd pob sefydliad yn gallu manteisio'n llawn ar y ddarpariaeth sydd ar gael drwy'r Ganolfan, naill ai oherwydd cyfyngiadau cyllido neu anhawster i ryddhau staff i fanteisio ar y ddarpariaeth.

Astudiaeth achos: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gyfrifol am arwain y sector Dysgu Cymraeg drwy ddarparu strategaethau a gwasanaethau i greu siaradwyr Cymraeg sy'n mwynhau defnyddio'r iaith.

Ym mis Ebrill 2023, yn dilyn trafodaethau gyda Bwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru, cyflwynwyd achos busnes i Lywodraeth Cymru i ddylunio cynllun yn benodol ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a chytunwyd ar gyllid.

I ddechrau, canolbwyntiodd y Ganolfan ar feithrin partneriaethau cryf â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ac, yn ystod 2023-24, dechreuodd y ddarpariaeth mewn ychydig o fyrddau iechyd.

Prif ffocws y cynllun iechyd a gofal cymdeithasol ar yr adeg hon oedd datblygu rhaglen gymorth i feithrin hyder siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu. Dilynodd hyn gynllun peilot llwyddiannus yn BIP Hywel Dda yn 2022. Roedd y rhaglen hon yn targedu staff sy'n gallu siarad Cymraeg ond sydd heb ei defnyddio ers peth amser ac sy'n llai hyderus a/neu'n llai parod i ddefnyddio'r iaith.

Roedd y Cynllun Codi Hyder hwn yn wahanol i ddarpariaeth brif ffrwd arall o ran ei strategaeth a'i ddwystr; yn y rhan fwyaf o achosion, roedd tiwtoriaid yn cefnogi staff ar sail un-i-un (neu mewn grwpiau bach) ac yn darparu cymorth hyblyg ac ymatebol iawn.

Gweithiodd y partneriaid i oresgyn rhai heriau bach ar ddechrau'r cynllun. Fodd bynnag, awgrymodd adroddiadau cychwynnol gan y byrddau iechyd dan sylw fod cynnydd amlwg wedi bod yn hyder y staff, bod y ffordd y cafodd y sesiynau eu trefnu a'u cyflwyno wedi bod yn rhagorol a bod y berthynas rhwng y byrddau iechyd, y darparwyr Dysgu Cymraeg a'r Ganolfan yn gryf. Dangosodd astudiaethau achos o aelodau unigol o staff sut a ble yr oeddent wedi defnyddio eu Cymraeg o ganlyniad i gymryd rhan yn y Cynllun.

Bwriad y Ganolfan oedd dechrau cyflwyno'r Cynllun Codi Hyder o fewn sefydliadau eraill yn ystod 2024/25, gan adeiladu ar wersi a llwyddiannau'r flwyddyn gyntaf hon o gyflwyno'r cynllun.

Yn ei werthusiad o'r cwrs codi hyder yn 2023-24, dywedodd BIP Hywel Dda fod 'y cyrsiau codi hyder wedi bod yn boblogaidd ymhlith staff y bwrdd iechyd gyda phresenoldeb o sawl maes megis nyrsio, ystadau, iechyd meddwl, gwasanaethau plant, rolau gweinyddol a

llawer mwy. Mae cynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu'n flaenoriaeth i'r bwrdd iechyd, ac felly mae gweld cymaint o staff yn barod i ymrwymo i'r math yma o sesiynau yn gam cadarnhaol iawn er mwyn gwella profiad y claf. Cynyddu defnydd o'r Gymraeg oedd prif nod y cynllun ac erbyn hyn rydym yn hyderus i ddweud bod llawer mwy o staff bellach yn defnyddio mwy o Gymraeg gyda chleifion a chydweithwyr eraill yn y gweithle.'

5.1.2. Diffinio'r gofynion o ran sgiliau Cymraeg

Adroddodd sefydliadau am gynnydd da o ran diffinio lefel y sgiliau Cymraeg sy'n angenrheidiol ar gyfer swyddi, gan gynnwys datblygu dulliau ac offer i gynorthwyo'r broses. Roeddent yn defnyddio'r categorïau 'Cymraeg yn hanfodol', 'Cymraeg yn ddymunol', 'Angen dysgu Cymraeg ar ôl Penodi' neu 'Dim angen sgiliau yn y Gymraeg' yn weddol gyson yn ystod prosesau recriwtio. Adroddodd llawer o sefydliadau eu bod wedi datblygu canllawiau ac offer asesu i gefnogi rheolwyr i ddiffinio gofynion sgiliau. Er enghraifft, defnyddiodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwylans Cymru Offeryn Asesu Sgiliau Cymraeg ar gyfer rheolwyr fel rhan o'r broses o lenwi swyddi gwag. Roedd gan ICC ffurflen Microsoft Word i reolwyr recriwtio ei llenwi, er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried gofynion ieithyddol priodol. Datblygodd IGDC ap newydd i asesu gofynion sgiliau Cymraeg swyddi. Adroddodd Cyngor Sir Ddinbych ei fod wedi defnyddio gwiriwr lefel iaith Gymraeg GCC i asesu sgiliau Cymraeg ei staff. Roedd Cyngor Gwynedd yn hysbysebu pob swydd fel un lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.

Nid oedd pob sefydliad yn nodi'r union lefel ofynnol o sgiliau o fewn eu prosesau. Roedd y diffiniad o sgiliau Cymraeg yn cael ei bennu'n rhannol ar lefel genedlaethol gan grŵp newydd Llywodraeth Cymru ar ddiffinio lefelau sgiliau iaith, y mae AaGIC yn cael ei gynrychioli arno. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wrthi'n cynnal adolygiad corfforaethol o'r gwahanol lefelau iaith i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r CEFR. Roedd Cyngor Sir Casnewydd yn defnyddio fframwaith ALTE ar gyfer hunanasesu sgiliau Cymraeg. Esboniodd Cyngor Caerdydd mai'r lefel ofynnol o hyfedredd yn y Gymraeg ar gyfer swydd a ddynodwyd yn un ble mae'r Gymraeg yn hanfodol yw lefelau 3-5 yn fframwaith ALTE. Disgrifir a diffinnir lefelau hyfedredd 1 i 5 yn Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor a'r canllawiau ategol. Mae gwaith yn parhau i newid o'r system ALTE bresennol i CEFR.

5.1.3. Ymwybyddiaeth iaith a lefel cwrteisi o sgiliau Cymraeg


Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fe wnaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gynnydd o ran datblygu'r 'Cwrs Croeso', sef sgiliau iaith lefel cwrteisi. Roedd hyn yn cynnwys sgysiau cychwynnol gyda sefydliadau a darparwyr yn y sector i wneud cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r cwrs. Er na ddechreuodd y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gosodwyd y sylfaen ar gyfer camau gweithredu dilynol yn ystod cyfnod adrodd 2024/25.

Gwnaeth rhai sefydliadau waith mewnol i ddatblygu sgiliau lefel cwrteisi ymhlith eu gweithluoedd. Er enghraifft, datblygodd BIP Caerdydd a'r Fro gerdyn ar sut i gyfarch pobl yn ddwyieithog a'i ddosbarthu ar draws y Bwrdd Iechyd i annog a chefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau Gymraeg. Rhannodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 'Safonau'r Wythnos' ac ymadroddion a geiriau cysylltiedig sylfaenol yn y bwletin Adnoddau Dynol (AD) wythnosol.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi datblygu cwrs Cymraeg mewnol o'r enw 'Cyflwyniad i'r Gymraeg'. Cafodd pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad ag aelodau'r cyhoedd ac sydd â sgiliau Cymraeg Lefel 0 bedair awr o ymarfer dros bedair wythnos gyda Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg.

Roedd canrannau'r staff a gwblhaodd y cwrs ymwybyddiaeth iaith gorfodol yn amrywio o 61% i 93% ar draws gwahanol fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Er nad yw pob sefydliad wedi darparu data, mae Ffigur 5.1 yn rhoi syniad o'r cyfraddau cwblhau uchel mewn rhai sefydliadau. Darparodd Cyngor Caerdydd hefyd gyfradd gwblhau o 80% ar gyfer ei hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gorfodol. [troednodyn 3]

Ffigur 5.1: Canran y staff ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd a gwblhaodd y cwrs ymwybyddiaeth iaith ym mis Mawrth 2024



Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hon yn dangos bod rhwng 61% a 93% o staff mewn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau wedi cwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth iaith

Ffynhonnell: Adroddiadau diweddar ar gynnydd 2023-24

Darparwyd enghreifftiau o'r ffordd y mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi'i ymgorffori mewn prosesau sefydlu a hyfforddi. Er enghraifft, adroddodd Cyngor Sir Ynys Môn fod modiwl Mwy na geiriau yn ei Chronfa Ddysgu, bod myfyrwyr gofal cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor yn dysgu am Mwy na geiriau fel rhan o'u cwrs a bod gwybodaeth

³ Ni ddarparwyd cyfraddau cwblhau yn adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol eraill.

berthnasol hefyd wedi'i chynnwys mewn prosesau sefydlu corfforaethol. Roedd rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer gweithwyr a myfyrwyr yn y sector gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, a ddatblygwyd gan GCC.

Cynhaliodd rhai sefydliadau eu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith eu hunain, yn ogystal â'r modiwl hyfforddi gorfodol. Hefyd, darparodd BIP Aneurin Bevan hyfforddiant pwrpasol ar ymwybyddiaeth iaith i grwpiau wedi'u targedu gan bwysleisio'r meysydd sydd fwyaf perthnasol iddynt. Roeddent yn gallu rhannu fersiwn o'r hyfforddiant hwn gydag awdurdodau lleol fel y gellid ei ddefnyddio o fewn rhai lleoliadau gofal cymdeithasol. Datblygodd a chyflwynodd Swyddog y Gymraeg BIP Caerdydd a'r Fro sesiynau Ymwybyddiaeth iaith wyneb yn wyneb ar gais yr adrannau.

5.1.4. Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo yn genedlaethol

Gwnaed cynnydd cyfyngedig gydag ymgyrchoedd hyrwyddo cenedlaethol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Roedd 14 enwebiad ar gyfer gwobrau GIG Cymru (mae enghreifftiau ohonynt i'w gweld o dan Thema 3) a chynhaliodd GCC ymgyrch yn y cyfryngau. Nid oedd gan AaGIC ddigon o adnoddau dros y cyfnod adrodd hwn i ddatblygu ei waith ar ymwybyddiaeth a hyrwyddo cenedlaethol ond roedd ganddo gynlluniau clir ar waith rhag ofn y byddai adnoddau'n cael eu darparu yn y dyfodol. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys neges gyfathrebu ddwys i'r holl staff.

5.2. Gweithlu'r dyfodol

5.2.1. Data

Sefydlwyd fframweithiau clir i gefnogi'r gwaith o fonitro niferoedd y myfyrwyr. Fe wnaeth AaGIC gasglu, dadansoddodd a rhannu gwybodaeth am nifer y myfyrwyr dwyieithog a oedd yn cael eu hyfforddi fel gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Cwblhaodd y rownd gyntaf o ymweliadau â phrifysgolion i fonitro ffurflenni data ar gyfer blwyddyn 1 y contract. Cynhaliwyd y rhain ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Nododd AaGIC nifer o straeon llwyddiant lle mae recriwtio a dysgu yn y Gymraeg yn ffynnu – a rhai meysydd lle roedd angen mwy o gefnogaeth i annog twf. Mae rhai meysydd o ddiddordeb cyffredin – lle y bydd AaGIC a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn arwain ar ddull mwy cenedlaethol – yn cynnwys efelychu, lleoliadau, dysgu'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a marchnata cyrsiau i siaradwyr Cymraeg ar sail genedlaethol ehangach.

Cadarnhaodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei fod yn casglu data blynyddol gan ddarparwyr cyrsiau israddedig sy'n cynnig o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod y wybodaeth hon yn ymddangos ar gyfleuster chwilio am gyrsiau ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn 2023-24, roedd 19 o blith 21 o bynciau yn y maes Gwyddor Iechyd yn cynnig cyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr gydag o leiaf un darparwr.

Yn Adroddiad Blynyddol Mwy na geiriau 2022-23, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod wrthi'n monitro nifer y dysgwyr dwyieithog a'r prentisiaethau sy'n dilyn cyrsiau a/neu brentisiaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

5.2.2. Datblygu'r ddarpariaeth

Prin oedd yr adroddiadau a'r manylion a oedd ar gael am gynlluniau darparwyr hyfforddiant o ran datblygu sgiliau myfyrwyr. Roedd AaGIC yn cwestiynu cynlluniau gyda'r holl Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) mewn ymweliadau ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Canfu AaGIC fod rhai o'r SAUau eisoes wedi cynhyrchu cynlluniau cynhwysfawr, tra bod eraill yn dal i gael eu datblygu. Gweithiodd AaGIC gyda nhw i fonitro cynnydd a'u cefnogi'n bragmataidd i ddatblygu a chyflawni cynlluniau cynhwysfawr. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau i ddarparu grantiau 'Sbarduno' a grantiau rhyngddisgyblaethol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth newydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd ambell fwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd ac awdurdod lleol wedi cymryd camau i wella eu hyfforddiant mewnol dwyieithog eu hunain. Recriwtiodd Tîm Newid Busnes IGDC gyfieithydd i sicrhau bod pob cwrs hyfforddi achrededig yn ddwyieithog. Erbyn hyn, mae rhaglen blwyddyn gyntaf mewn ymarfer a chyfnod sefydlu ar gyfer gofal uniongyrchol Cyngor Sir Fynwy wedi ymgorffori cynnwys penodol am y Gymraeg a Mwy na geiriau. Mae hyn yn cynnwys gwneud staff yn ymwybodol o gyrsiau Cymraeg sydd ar gael iddynt. Yn ogystal, mae wedi cynnwys gwybodaeth am y Cynnig Rhagweithiol a thrafodaethau ynghylch y cyd-destun Cymraeg i ymgorffori pwysigrwydd Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r angen i gynnig asesiadau yn y Gymraeg. Academi Caerdydd yw darparwr hyfforddiant mewnol y Cyngor ac mae'n darparu'r rhan fwyaf o gyrsiau hyfforddi i staff y cyngor. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg sy'n darparu ar gyfer pob lefel o allu, a'r modiwl ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

5.2.3. Ymgysylltu â gweithlu'r dyfodol

Fel gydag ymgyrchoedd cenedlaethol, nid oedd gan AaGIC ddigon o adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd hwn i hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau Cymraeg a'r cyfleoedd y gallant eu cynnig mewn gyrfaoedd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol i bobl ifanc. Mae ganddo gynlluniau ar waith pe bai mwy o adnoddau ar gael, gan gynnwys meithrin deialog ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a chydlynu deialog barhaus rhwng ysgolion a phrifysgolion.

Manylodd ychydig o sefydliadau ar y gwaith a wnaethant yn ystod y cyfnod adrodd hwn i godi ymwybyddiaeth o fanteision y Gymraeg mewn gyrfaoedd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd gan BIP Aneurin Bevan raglen ymgysylltu â myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o bob lefel oedran er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r pwys y mae'r bwrdd iechyd yn ei roi ar y sgil sydd ganddynt fel siaradwyr Cymraeg. Roedd hyn yn cynnwys y rhai sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith. Tynnodd Cyngor Caerdydd sylw at y ffaith bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo drwy strategaeth Caerdydd Ddwyieithog i ymchwilio i sut i gynyddu nifer y myfyrwyr yng Nghaerdydd sy'n cymryd rhan mewn addysg bellach ac uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y Cyngor hefyd yn cefnogi 'Gyrfa Gymraeg' mewn partneriaeth â phrifysgolion a cholegau Caerdydd. Ffair gyrfaoedd flynyddol yw hon i hyrwyddo'r

Gymraeg a gwerth sgiliau Cymraeg. Mynychodd dros 300 o ddisgyblion Blwyddyn 9 y digwyddiad yn 2023.

Fe wnaeth BIP Betsi Cadwaladr waith hefyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn i hysbysu'r gweithlu yn y dyfodol am fanteision sgiliau Cymraeg wrth ymuno â'r gweithlu. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd darparu gofal i gleifion sy'n briodol o ran iaith.

Astudiaeth achos: BIP Betsi Cadwaladr

Yn ystod 2023-24, gweithiodd BIP Betsi Cadwaladr i hysbysu gweithlu'r dyfodol am fanteision sgiliau Cymraeg.

Sioe deithiol sgiliau Cymraeg yn arwain at wobwr genedlaethol

Cafodd Tîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd wobwr Hyrwyddwr Gorau'r Gymraeg yn y Gweithle yng Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru. Cyflwynwyd y gwobrau cenedlaethol yn ystod seremoni yn Senedd Cymru ym mis Tachwedd 2023, a oedd yn dathlu ymdrechion cyflogwyr o bob cwr o'r wlad sy'n gweithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru i helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer byd gwaith.

Enwebwyd Tîm y Gymraeg am y gwaith y mae ei aelodau wedi'i wneud i ysbrydoli a chymell pobl ifanc i wneud y gorau o'u sgiliau dwyieithog, yn ogystal â'u hysbysu am gyfleoedd cyflogaeth o fewn y sector iechyd yng ngogledd Cymru.

Ar ôl i'r Tîm gyfrannu at nifer o ddigwyddiadau a drefnwyd gan Gyrfa Cymru, trefnwyd taith fawr o amgylch ysgolion uwchradd i gyd-fynd ag Wythnos y Gymraeg y Bwrdd Iechyd ym mis Hydref. Dros gyfnod o ddeng niwrnod, cynhaliwyd mwy nag ugain sesiwn mewn tair ar ddeg o ysgolion uwchradd gwahanol. Ochr yn ochr â chyflwyniad cychwynnol gan aelod o Dîm y Gymraeg, roedd pob un o'r sesiynau hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan aelodau o Dîm Iechyd Cyhoeddus a chyflwyniadau byr gan staff clinigol, a drafododd eu profiadau personol eu hunain o weithio'n ddwyieithog.

Gweithio'n ddwyieithog yn y sector iechyd – canllaw i bobl ifanc

Drwy weithio mewn partneriaeth ag aelodau o Adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y Bwrdd Iechyd a phartneriaid o Brifysgol Bangor, creodd Tîm y Gymraeg lyfryn newydd. Prif bwrpas y lyfryn oedd hysbysu pobl ifanc am y gwahanol fathau o swyddi sydd ar gael o fewn y Bwrdd Iechyd ac am fanteision sgiliau dwyieithog i unigolion sy'n ystyried gyrfaedd yn y sector yng Nghymru.

Roedd y lyfryn newydd hefyd yn cynnwys astudiaethau achos yn seiliedig ar ddau aelod ifanc o staff sy'n gweithio'n ddwyieithog yng ngogledd Cymru, yn ogystal â phrofiadau cadarnhaol y mae cleifion a'u teuluoedd wedi'u cael o ganlyniad uniongyrchol i dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhannwyd y lyfryn gyda phob ysgol uwchradd a choleg addysg bellach yng ngogledd Cymru.

Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Wreccsam

Cydweithiodd y Bwrdd Iechyd â Phrifysgol Wreccsam i gynnal Diwrnod Addysg Rhyngbroffesiynol ar 'Gofal ac Iaith Law yn Llaw'. Trefnwyd y digwyddiad hwn gan y brifysgol i hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn y sector gofal iechyd. Mynychwyd y diwrnod addysg gan fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf a'r ail a oedd yn dilyn amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Therapi Galwedigaethol, Nyrsio Oedolion a Phlant a Gwyddorau Parafeddygol.

Roedd siaradwyr gwadd yn bresennol, gan gynnwys tîm y Gymraeg, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), ffisiotherapydd a Chyfarwyddwr Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ar gyfer Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain. Trafodwyd straeon yn ymwneud â chleifion, gan ddangos sut y mae'r Cynnig Rhagweithiol yn chwarae rhan allweddol yng ngofal cleifion. Mynychodd myfyrwyr wersi blasu Cymraeg hefyd. Cafwyd adborth ardderchog, gyda nifer o fyfyrwyr yn dweud bod ganddynt well dealltwriaeth o pam mae iaith yn bwysig i gleifion.

6. Thema 3: Rhannu arferion gorau a dull galluogi

Mae rhannu arferion gorau rhwng ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn elfen hanfodol o'r cynllun Mwy na geiriau. Ceir enghreifftiau da o arferion yn cael eu rhannu a'i ddathlu ar draws y sector er bod angen rhoi mwy o flaenoriaeth i rai camau gweithredu sy'n dod o dan y thema hon.

6.1. Rhannu arferion gorau

Mae rhannu arferion gorau ac adnoddau yn elfen bwysig o Mwy na geiriau.

Ar lefel genedlaethol, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 i ymgysylltu â'r cyhoedd ac i hyrwyddo Mwy na geiriau. O dan y thema dysgu Cymraeg mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, agorwyd y sesiwn gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Eluned Morgan AS, a chafwyd cyfleoedd i glywed straeon personol am ddysgu Cymraeg yn y sector ac am adnoddau dysgu newydd.

O safbwynt staff iechyd a gofal cymdeithasol, cafodd arferion gorau ac adnoddau eu rhannu yn ystod y cyfnod adrodd hwn drwy gyfarfodydd chwarterol y grŵp strategol ar gyfer swyddogion y Gymraeg o fyrdau ac ymddiriedolaethau iechyd. Cynhaliodd y grŵp hwn drafodaethau hefyd drwy sgwrs grŵp MS Teams, i gefnogi gweithio mewn tîm traws-sefydliadol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyfarfu aelodau ar lefel genedlaethol i rannu profiadau a chynhaliodd y rhwydwaith drafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyfleoedd i swyddogion a rheolwyr y Gymraeg gyfarfod ag arweinwyr gweithredol y Gymraeg o'r sector iechyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, a dylid blaenoriaethu hyn fel cam gweithredu yn y dyfodol.

Hwylusodd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol hefyd y broses o rannu arferion gorau ac adnoddau ymhlith eu staff, drwy byrth mewnol, gwefannau a rhwydweithiau. Mae'r pyrrh, y gwefannau a'r rhwydweithiau hyn yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac mae'n werth parhau â nhw. Un enghraifft o'r fath oedd porth Mwy na geiriau Gwent. Hyrwyddwyd straeon newyddion da hefyd gan awdurdodau lleol ar eu gwefannau, fel yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a amlygodd gyflawniadau a'r gwahaniaeth a wnaed gan staff sy'n dysgu Cymraeg. Un porth llwyddiannus a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn oedd yr Hwb Iaith. Ar y cyd â Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI), datblygodd IGDC borth Hwb Iaith a lansiwyd yn ystod y cyfnod adrodd sydd i ddod ar Ddiwrnod Shwmae ym mis Hydref 2024.

Astudiaeth achos: Hwb Iaith

Adnodd i weithlu'r GIG ac eraill rannu a darllen am enghreifftiau o arfer da er mwyn deall pwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg, a dylanwadu ar y sector i gryfhau'r cynnig Cymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau yw Hwb Iaith - GIG Cymru. Mae'r wefan yn cynnwys canllawiau, adnoddau, gwybodaeth a chysylltiadau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg

yn y gweithle. Mae'r llyfrgell adnoddau yn darparu dolen i ddogfennau ac adnoddau sydd ar gael drwy sefydliadau partner fel GCC, Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a llesiant; Comisiynydd y Gymraeg, Mentrau Iaith, Duolingo a LearnWelsh.cymru

Sefydlwyd neu cryfhawyd nifer o rwydweithiau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Roedd y rhain yn cynnwys rhwydwaith Ymlaen ICC, rhwydwaith hyrwyddwyr y Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin ar draws eu hadran Cymunedau, grŵp hyrwyddwyr y Gymraeg Cyngor Sir Abertawe ar draws yr adran Gwasanaethau Oedolion, a rhwydwaith Rhwyd-iaith BIP Caerdydd a'r Fro. Adroddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent eu bod wedi creu grŵp Microsoft Teams pwrpasol ar gyfer staff sy'n medru'r Gymraeg er mwyn rhannu arferion da yn ogystal â dulliau o gyfeirio defnyddwyr gwasanaethau at gymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, parhaodd swyddogion awdurdodau lleol i gyfarfod i rannu arfer da fel rhan o Rhwydwaith sy'n cael ei redeg gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer swyddogion y Gymraeg.

Astudiaeth achos: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Lansiwyd Ymlaen, rhwydwaith Cymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), ar Ddydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth 2023 ac mae wedi tyfu'n raddol. Mae bellach yn un o rwydweithiau staff mwyaf y sefydliad, gyda thros 100 o aelodau. Roedd rhwydweithiau tebyg eisoes yn bodoli ar gyfer cymunedau staff eraill, fel staff LHDTTC+ a'n rhwydwaith menywod, felly roedd creu rhwydwaith Cymraeg yn ddatblygiad naturiol. Mae Ymlaen yn darparu gofod i staff drafod, hyrwyddo a defnyddio'r iaith.

Caiff y rhwydwaith ei gyd-gadeirio gan aelodau o staff sy'n angerddol dros y Gymraeg ond nad yw'r iaith yn rhan o'u rôl o ddydd i ddydd o fewn y sefydliad, sy'n golygu bod y gweithgareddau'n ategu gwaith Tîm y Gymraeg. Mae'r rhwydwaith yn cyfarfod ar-lein bob chwarter ac yn trefnu digwyddiadau ar gyfer dyddiadau allweddol fel Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Shwmae. Er enghraifft, i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, cynhaliwyd wythnos o weithgareddau, gan gynnwys gwobr dysgwr Cymraeg y flwyddyn gyntaf erioed Iechyd Cyhoeddus a sgysiau gan siaradwyr gwadd. Cynhelir rhai o'r sesiynau rhwydwaith yn y Gymraeg gyda gwasanaethau cyfieithu, tra bod eraill yn ddwyieithog, gan annog dysgwyr i gymryd rhan.

Mae gan Ymlaen gyllideb fach i ariannu ei ddigwyddiadau ac mae'n cael ei gefnogi gan uwch gyfarwyddwr. Mae'r gefnogaeth hon gan arweinydd yn helpu i sicrhau bod y rhwydwaith yn cael ei ystyried yn rhan bwysig ac annatod o'r sefydliad, yn hytrach na dim ond prosiect dan arweiniad Tîm y Gymraeg.

Dywedodd Neil Lewis, Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros y Gymraeg a chyd-gadeiryddion Ymlaen: 'Mae Ymlaen yn ffordd wych i ni hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sefydliad ac mae'n ein cefnogi i sicrhau bod ein staff yn cael y cyfle i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg tra byddant yn y gwaith. Mae'r rhwydwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddiwylliant dwyieithog y sefydliad drwy ddathlu popeth yn ymwneud â Chymru a'r Gymraeg'.

Astudiaeth achos: BIP Caerdydd a'r Fro

Mae rhwydwaith Rhwyd-iaith BIP Caerdydd a'r Fro yn helpu i ddod â staff sy'n medru'r Gymraeg a dysgwyr yr iaith at ei gilydd mewn gofod rhithwir, cefnogol. Wedi'i sefydlu gan aelod o dîm cyfieithu'r bwrdd iechyd, ei nod yw hyrwyddo diwylliant Cymru ac annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn y gweithle.

Bellach, Rhwyd-iaith yw'r rhwydwaith staff mwyaf yn y sefydliad gyda thros 100 o aelodau ac mae'n gweithredu drwy Microsoft Teams. Mae'n darparu llwyfan ar gyfer rhannu adnoddau, straeon, a dolenni i ddigwyddiadau Cymraeg, gan helpu staff i ymgysylltu â'r iaith mewn ffordd hygyrch.

Meddai Alun Williams, Swyddog y Gymraeg yn BIP Caerdydd a'r Fro, 'Mae Rhwyd-iaith yn bodoli i roi cyfle i siaradwyr Cymraeg wneud mwy o ddefnydd o'r iaith. Mae'n ffordd wych i bobl gysylltu â chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg.'

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r bwrdd iechyd yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant Rhwyd-iaith drwy gyflwyno digwyddiadau ac ehangu ei bresenoldeb ar Viva Engage, platfform cyfryngau cymdeithasol mewnol. Bydd hyn yn helpu mwy fyth o staff i gofleidio a dathlu'r Gymraeg yn y gwaith.

6.2. Datblygu cynnwys digidol dwyieithog

Fe wnaeth rhai sefydliadau, ond nid pob un, ddefnydd effeithiol o'r Pecyn Cymorth Technoleg Ddwieithog yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Defnyddiwyd y pecyn cymorth mewn tri achos:

- rhannwyd y pecyn cymorth gyda'r tîm cyfathrebu yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- datblygodd PCGC y System Gwybodaeth am y Gweithlu Gofal Sylfaenol a'r Systemau Rota Meddygon Teulu fel systemau dwyieithog
- rhannodd ICC y pecyn cymorth gyda'i dîm cyfathrebu.

Ni wnaeth ambell sefydliad ei fabwysiadu yn ystod y cyfnod adrodd hwn gan nad oeddent wedi datblygu unrhyw wasanaethau digidol newydd. Mae rhywfaint o ddiffyg ymwybyddiaeth ynghylch argaeledd y pecyn cymorth, sy'n awgrymu bod angen parhau i'w hyrwyddo, er mwyn sicrhau bod staff newydd yn ymwybodol ei fod ar gael.

Darparwyd enghreifftiau hefyd o gyfieithwyr yn gweithio ar greu cynnwys yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Er enghraifft, adroddodd BIP Betsi Cadwaladr fod tîm y Gymraeg wedi cyfrannu at ddatblygu ei Strategaeth Ddigidol ac wedi cyfrannu at ei Grŵp Profiadau Cleifion a Gofalwyr. Roedd IGDC wedi recriwtio Rheolwr Cyfieithu a Chyfieithydd i gefnogi prosiectau ble roedd angen rhyngwynebau dwyieithog. Y prif brosiect yn ystod y cyfnod adrodd hwn oedd datblygu'r [Ap GIG Cymru](#), a ddatblygwyd yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf gan ddefnyddio siaradwyr Cymraeg i brofi prototeipiau. Mae gan yr Ap gyfleuster sy'n

galluogi defnyddwyr i newid iaith. Hefyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, recriwtiodd ICC Swyddog Cynnwys Digidol Cymraeg gan wneud gwelliannau ar draws ei wefannau.

6.3. Fforymau rhanbarthol

Roedd fforymau rhanbarthol ar waith mewn rhai rhannau o Gymru fel yng Ngwent, gogledd Cymru a Phowys yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Roedd nifer dda o sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol yn bresennol mewn fforymau rhanbarthol effeithiol, ac roeddent yn datblygu ac yn rhannu adnoddau ar y cyd. Er enghraifft, datblygodd fforwm gogledd Cymru gardiau gwybodaeth ar gyfer ateb y ffôn yn ddwyieithog ac ymadroddion wedi'u teilwra i staff eu defnyddio.

Roedd fforymau rhanbarthol yn absennol mewn sawl ardal, gan gynnwys Cwm Taf Morgannwg, Caerdydd a'r Fro, a Bae Abertawe. Bu'r ymdrechion i sefydlu fforwm yng Nghwm Taf Morgannwg yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn aflwyddiannus oherwydd cynrychiolaeth annigonol gan bartneriaid allweddol. Yn y cyfamser, daethpwyd â'r fforwm rhanbarthol a sefydlwyd gan BIP Caerdydd a'r Fro i ben. Byddai sefydliadau'r sector iechyd sy'n gweithredu yn y rhanbarthau hyn yn croesawu cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i sefydlu fforymau effeithiol y ceir presenoldeb da ynddynt.

6.4. Dathlu llwyddiant

Cafwyd sawl enghraifft o fentrau i ddathlu llwyddiant yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys:

- Gwobr Gofalu trwy'r Gymraeg, a gyflwynwyd gan GCC yn ystod y cyfnod adrodd hwn
- digwyddiad 'Clywed dy Lais', a gynhaliwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac a hwyluswyd gan Llais i glywed profiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaethau
- gwobr Cymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd (HPMA) Cymru ar gyfer y Gymraeg a enillwyd gan BIP Caerdydd a'r Fro ym mis Mawrth 2023
- Gwobr Gofal Teg GIG Cymru. Roedd hwn yn categori newydd a gyflwynwyd pan lanswyd y gwobrau ym mis Chwefror 2024. Roedd Cynllun Dewis Iaith BIP Betsi Cadwaladr yn un o'r rhai a gyrrhaeddodd y rownd derfynol ar gyfer Gwobr Gofal Teg GIG Cymru. ^[troednodyn 4]

Astudiaeth achos: BIP Betsi Cadwaladr

Roedd Cynllun Dewis Iaith BIP Betsi Cadwaladr yn cynnwys cyflwyno magnetau oren i adnabod cleifion a staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn caniatáu i BIPBC fabwysiadu egwyddorion y 'cynnig rhagweithiol'. Gyda chaniatâd y claf, rhoddir magnet oren ar y bwrdd gwyn wrth ymyl gwely'r claf i ddangos ei bod yn well ganddo gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae byrddau gwyn y staff hefyd yn arddangos magnetau oren i nodi pa aelodau sy'n gallu siarad Cymraeg, gan sicrhau bod y staff yn ymwybodol o anghenion ieithyddol cleifion ac yn gallu diwallu'r anghenion hynny. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau dwyieithog. Mae 'Ffurflen Archwilio Misol' yn helpu i gofnodi data ar

⁴ [Cynllun Dewis Iaith | Cynllun Dewis Iaith \(BIPBC\) - Gweithrediaeth GIG Cymru](#)

ddewisiadau iaith cleifion a staff, ac anogir rheolwyr wardiau i gasglu a chofnodi'r wybodaeth hon yn fisol.

Treialwyd y Cynllun Dewis Iaith am y tro cyntaf ar Ward Glaslyn yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, ar gyfer cleifion dementia. Yn dilyn ei lwyddiant a'r adborth cadarnhaol, cafodd ei ehangu i Ward Prysor ar gyfer cleifion strôc ac yna i wardiau eraill ledled gogledd Cymru, gan gynnwys ysbytai cymunedol ac Ysbyty Glan Clwyd. Erbyn diwedd 2019, roedd y cynllun yn weithredol yn holl safleoedd clinigol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Ysbyty Maelor Wrecsam.

6.5. Arolwg o ddarparwyr gofal sylfaenol

Parhaodd Llywodraeth Cymru â'i gwaith i gynllunio a chynnal arolwg cenedlaethol o ddarparwyr gofal sylfaenol yn ystod y cyfnod adrodd hwn, a hynny er mwyn deall eu darpariaeth Gymraeg yng nghyd-destun y dyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol. Anfonwyd yr arolwg at ddarparwyr gofal sylfaenol yn ystod Hydref 2024/25.

Casglodd tri bwrdd iechyd (BIP Aneurin Bevan, BIP Caerdydd a'r Fro a BIP Bae Abertawe) wybodaeth am sgiliau Cymraeg eu darparwyr gofal sylfaenol er mwyn adnabod pwy allai ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yna rhannwyd y wybodaeth hon ar eu gwefannau. Mewn un achos, adroddodd BIP Bae Abertawe fod y gyfradd ymateb gan eu darparwyr gofal sylfaenol yn isel.

6.6. Y defnydd o iaith Gwaith

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, parhaodd darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i wneud defnydd helaeth o adnoddau iaith Gwaith. Caiff adnoddau fel poster, llinynnau gwddf, bathodynau a sticeri eu dosbarthu gan sefydliadau i'w staff. Adroddodd y byrddau iechyd fod y staff yn gallu gofyn am lifrai a sgrybs â symbol iaith Gwaith arnynt pan fyddant yn eu harchebu a dywedodd un awdurdod lleol (Cyngor Gwynedd) ei fod yn bwriadu darparu lifrai newydd i staff gofal cymdeithasol â symbol iaith Gwaith wedi'i wnïo arni. Roedd staff sy'n siarad ac yn dysgu Cymraeg yn aml yn defnyddio'r bathodynau a'r llinynnau gwddf hyn i ddangos eu galluoedd ieithyddol, a oedd yn ei dro yn caniatáu i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau, aelodau o'r teulu ac ymwelwyr adnabod staff y gallent siarad Cymraeg â nhw yn hawdd.

Darparwyd ambell enghraifft o sut roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei harddangos a'i rhannu drwy systemau TGCh gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd nifer o sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol fod eu staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio llofnodion electronig dwyieithog ar e-byst. Yn yr achosion hyn, yn aml, byddai staff yn cael testun safonol i'w gynnwys yn eu llofnodion e-bost i ddangos a oeddent yn siarad neu'n dysgu Cymraeg. Creodd llawer o sefydliadau gefndiroedd Microsoft Teams priodol i staff eu defnyddio hefyd, a oedd yn dangos a oeddent yn siarad neu'n dysgu Cymraeg. Er enghraifft, fel rhan o'u canllawiau brand a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, lluniodd ICC ganllawiau ar gyfer defnyddio llofnodion e-bost dwyieithog, sleidiau PowerPoint a chefnidiroedd Microsoft Teams, sy'n hanfodol o ran helpu i sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad.

Roedd yna hefyd enghreifftiau da o ddeunyddiau arddangos gweledol yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Er enghraifft, adroddodd Cyngor Sir Ynys Môn fod posteri sy'n annog ymwelwyr i ddelio â'r Cyngor yn y Gymraeg neu Saesneg yn cael eu harddangos mewn derbynfeydd. Adroddodd Cyngor Gwynedd hefyd ei fod wedi arddangos lluniau staff ar wal cartref gofal gyda bathodyn y Gymraeg i ddangos pa staff oedd yn gallu siarad Cymraeg, mewn ymdrech i hyrwyddo'r iaith ac annog aelodau'r teulu ac ymwelwyr eraill i ddefnyddio'r iaith pan fyddant yn ymweld. Adroddodd BIP Cwm Taf Morgannwg ei fod wedi cyflwyno'r defnydd o fyrddau gwyn electronig ar draws holl welyau ysbyty'r bwrdd iechyd i arddangos anghenion ieithyddol cleifion. Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, roedd 29 o gleifion wedi elwa o'r system hon ar draws ysbytai'r rhanbarth. Yn un o'r achosion hyn, cafodd gwybodaeth am ddewis iaith claf a oedd wedi cael ei dderbyn i un ysbyty, ac yna ei drosglwyddo i ysbyty arall, ei chadw heb fod angen casglu gwybodaeth o'r fath am yr eildro.

Gellid rhannu'r wybodaeth am iaith a gesglir drwy ESR yn ehangach gan mai ychydig iawn o enghreifftiau a ddarparwyd lle y defnyddiwyd y wybodaeth hon at ddibenion adnabod ehangach, megis rhannu'r wybodaeth drwy gyfeiriaduron staff. Mewn un achos (BIP Aneurin Bevan), adroddwyd bod cyfeiriaduron staff wedi'u cysylltu ag ESR, er mwyn gallu adnabod staff â sgiliau Cymraeg. Mewn achos arall, dywedodd BIP Bae Abertawe fod y dasg hon yn broblematig, ac y byddai'n croesawu mwy o arweiniad yn y dyfodol.

6.7. Safoni terminoleg

Fe wnaeth y capasiti cyfieithu ehangu gryn dipyn ar draws y byrddau iechyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gyda chyfieithwyr ychwanegol yn cael eu penodi. Dywedodd awdurdodau lleol eu bod yn parhau i ddefnyddio timau cyfieithu mewnol i gefnogi anghenion cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd eu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Recriwtiodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) gyfieithydd Cymraeg a recriwtiodd IGDC Reolwr Cyfieithu a Chyfieithydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Dywedodd AaGIC fod ei dîm cyfieithu mewnol bellach yn gallu diwallu'r rhan fwyaf o'i ofynion cyfieithu, gan ei fod wedi recriwtio tri Phrentis Gyfieithydd dros y ddwy flynedd flaenorol ac yn mynd drwy'r broses o benodi cyfieithydd arall i ymuno â'r tîm.

Dywedodd sawl bwrdd iechyd fod nifer y geiriau a gyfieithwyd wedi cynyddu dros y cyfnod adrodd, yn rhannol oherwydd bod y broses o orfodi Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd yn 2018 yn parhau i ysgogi'r galw. Er enghraifft, dywedodd BIP Betsi Cadwaladr ei fod, yn ystod y cyfnod adrodd hwn, wedi gallu ymateb i geisiadau brys y tu allan i oriau gwaith am gyfieithu a darparu cymorth i'r sector gofal sylfaenol. Rhoddodd hefyd fanylion am gyfanswm y geiriau a gyfieithwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2023-24, sef 3,721,696, cynnydd o 28% o'i gymharu â 2,912,344 o eiriau a gyfieithwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol (2022/23). Ym mis Chwefror 2024, llofnododd y Gwasanaeth Cyfieithu yn BIP Betsi Cadwaladr Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda BIP Aneurin Bevan, i'w gefnogi gyda chyfieithu dogfennau a gohebiaeth ar gyfer y cyhoedd.

Astudiaeth achos: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd PCGC yn bwriadu cynnal astudiaeth ddichonoldeb i archwilio sut y darperir gwasanaethau cyfieithu Cymraeg ar draws GIG Cymru. Mewn ymateb i'r galw cynyddol am gymorth cyfieithu a phwysau ariannol cynyddol o fewn y sector iechyd, roedd yn amserol ac yn angenrheidiol ymchwilio i ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o weithio.

Un maes ffocws allweddol oedd y potensial i gyflwyno system cof cyfieithu gyffredin ar draws sefydliadau'r sector iechyd. Adeg yr astudiaeth, roedd sefydliadau unigol yn defnyddio meddalwedd cof cyfieithu gwahanol, gan greu heriau o ran yr ymdrechion i safoni terminoleg gofal iechyd Cymraeg. Roedd diffyg platfform cyffredin yn cyfyngu ar gyfleoedd i adeiladu corpwys terminolegol unedig ac yn rhwystro cydweithio rhwng sefydliadau.

Er mwyn deall y dirwedd yn well, dosbarthwyd arolwg i bob sefydliad yn y sector iechyd. Rhagwelir y bydd y canlyniadau'n datgelu awydd ymhlith partneriaid i gyflwyno system cof cyfieithu gyffredin. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd sawl her yn gysylltiedig â chyflawni'r nod hwn dros gyfnod o amser. Er enghraifft, roedd cyfieithwyr ar draws y sector yn defnyddio amrywiaeth o offer cof cyfieithu gwahanol, gan gynnwys Phrase, Déjà Vu, a Wordfast Pro. Roedd gan bob sefydliad gytundebau trwydded meddalwedd ar wahân, gyda dyddiadau dod i ben amrywiol. Mewn rhai achosion, roedd contractau ar gyfer trwyddedau yn weithredol am hyd at dair blynedd, sy'n golygu y byddai'r newid i system gyffredin yn gofyn am gynllunio gofalus a dull graddol.

Dywedodd PCGC: "Mae'r astudiaeth ddichonoldeb hon yn gam pwysig tuag at ddull mwy cyson a chydweithredol o gyfieithu Cymraeg ar draws GIG Cymru. Drwy ymchwilio i botensial system cof cyfieithu gyffredin, rydym yn gosod y sylfaen ar gyfer mwy o effeithlonrwydd, ansawdd gwell, a defnydd mwy cyson o derminoleg gofal iechyd yn y Gymraeg, bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei rhannu ag arweinwyr y Gymraeg ym mhob un o sefydliadau GIG Cymru gyda'r bwriad o gynhyrchu adroddiad ar y canfyddiadau yn ystod 2024/25".

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaeth, bydd GIG Cymru yn symud ymlaen â phrosiect peilot yn ystod 2024/25 a 2025/26, yn cynnwys grŵp bach o sefydliadau partner. Bydd y cynllun peilot hwn yn profi ymarferoldeb a manteision mabwysiadu system cof cyfieithu gyffredin, gyda'r nod o wella effeithlonrwydd a chysondeb mewn gwasanaethau cyfieithu. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y dull yn cael ei ehangu i holl bartneriaid GIG Cymru, gan gefnogi'r nod hirdymor o safoni terminoleg gofal iechyd yn y Gymraeg ar draws y gwasanaeth.

7. Thema 4: Monitro Mwy na geiriau yn barhaus

Mae'r thema olaf sydd wedi'i hymgorffori yn Mwy na geiriau yn ymwneud â monitro'r cynllun yn barhaus. Mae Mwy na geiriau yn argymhell mapio'r data sydd ar gael a chyflwyno fframwaith rheoli perfformiad i gefnogi'r broses o fesur cynnydd yn erbyn ei amcanion, gyda'r nod o helpu i sicrhau llwyddiant yn y dyfodol. Amlinellir nifer o gamau gweithredu i gefnogi'r ffocws ar wella data, dangosyddion ategol a dangosfyrddau.

Cyfarfu Bwrdd Cynghori Mwy na geiriau am y tro cyntaf ym mis Hydref 2023 a chwaraeodd ran bwysig yn ystod y flwyddyn o ran y broses fonitro a chraffu ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu a chytuno ar gyllideb Mwy na geiriau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Ym mhob un o'i gyfarfodydd, ystyriodd y Bwrdd Cynghori gamau gweithredu penodol yn Mwy na geiriau a nododd feysydd ar gyfer cynnydd pellach (a gafodd eu bwydo'n ôl wedyn i'r sefydliadau arweiniol). Ystyriodd hefyd rôl y rhai sy'n ysgog newidiadau diwylliannol, gwnaeth awgrymiadau ar gyfer cyflwyno categori ar gyfer y Gymraeg yng Ngwobrau'r GIG, canolbwyntiodd yn benodol ar ddata allweddol ar y defnydd o'r Gymraeg ymysg y gweithlu iechyd a gofal, ac ystyriodd weithredu argymhellion y gweithgor amhariad ar y synhwyrâu o safbwynt y Gymraeg. Cyfarfu Cadeirydd y Bwrdd Cynghori hefyd yn unigol â rhanddeiliaid allweddol i godi proffil blaenoriaethau Mwy na geiriau a magu momentwm ynghylch yr angen am newid a chynnydd pellach. Roedd hyn yn cynnwys meithrin perthnasoedd â Llais, y corff newydd a chanddo rôl allweddol o ran adrodd ar brofiadau cleifion.